**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru

Rhun ap Iorwerth AS
Arweinydd Plaid Cymru

22 Tachwedd 2023

Annwyl Mark a Rhun

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Rydym bellach yn tynnu tua diwedd y broses o gasglu tystiolaeth i lywio ein gwaith craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Nodwn fod y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi effaith, yn fras, i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Mehefin 2022.

Wrth inni ddechrau dod i gasgliadau ar sail y dystiolaeth a gawsom, ac wrth inni ystyried argymhellion posibl, rydym yn cadw mewn cof y tebygrwydd y bydd angen uwch-fwyafrif o 40 Aelod o leiaf ar y Bil hwn os yw am basio ei gyfnod olaf.

Roedd y Datganiad Safbwynt ar y Cyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 gan bartneriaid y Cytundeb Cydweithredu ac a ddarparwyd i'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd hefyd yn cydnabod y byddai angen mwyafrif o ddau draean i'r cynigion lwyddo.

Er mwyn llywio ein gwaith, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd chi'ch dau, fel partneriaid yn y Cytundeb Cydweithredu, i roi tystiolaeth ar y materion a ganlyn:

1. A ydych yn parhau i fod yn hyderus y bydd uwch-fwyafrif yn y Senedd o blaid y cynigion yn y Bil, gan gynnwys y system etholiadol rhestr gaeedig arfaethedig.

2. A ydych wedi ystyried y posibilrwydd y gallai cynigion amgen ddenu uwch-fwyafrif pe bai'r Senedd yn penderfynu diwygio un neu fwy o'r trefniadau etholiadol yn y Bil.

3. Hefyd, byddai gennym ddiddordeb mewn trafod â chi'r dystiolaeth a'r rhesymeg a arweiniodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd at y casgliadau a nodir yn y Datganiad Sefyllfa ar y Cyd.

Mae gan y Pwyllgor gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer dydd Iau 30 Tachwedd 2023 a dydd Iau 7 Rhagfyr 2023. Byddem yn hapus i fod yn hyblyg o ran amseroedd ar y dyddiadau hynny, neu i drafod opsiynau ar gyfer dyddiadau eraill yn ôl eich argaeledd.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Adam Price AS, cyn-arweinydd Plaid Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.